

Achosion a amheuir o amlygiad i Garbon Monocsid (CO): Canllaw i'w ddefnyddio yn Adrannau Achosion Brys ysbytai ac mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Yr Anhwylder/Symptomau sydd gan y Claf

- Pen tost
- Cyfog/chwydu
- Teimlo'n gysglyd
- Pendro
- Prinder anadl
- Poen yn y frest
- Cwmpo
- Symptomau niwrolegol
- Teimlo'n flinedig drwy'r amser
- Symptomau cyffredinol sy'n debyg i symptomau'r fflw

A allai hwn fod yn achos o wenwyno gan CO?

Ystyriaethau

Os ydych yn credu y gallai'r claf fod wedi'i wenwyno gan CO, gofynnwch y cwestiynau canlynol iddo:

Cydbreswylwyr/cyfeillion

A oes unrhyw un arall yn yr eiddo yr effeithir arno (gan gynnwys anifeiliaid anwes)?

Y tu allan

A yw'r symptomau yn gwella pan fyddwch y tu allan i'r adeilad? ('yn well y tu allan')

Cynnal a Chadw

A oes mwy na blwyddyn wedi mynd heibio ers i ddyfeisiau gwresogi/boeleri gael eu gwasanaethu?

Larwm

A yw eich larwm CO wedi'i actifadu?

Ateb cadarnhaol i bob

Ateb negyddol i bob un

Amlygiad Aciwt neu Gronig

1. **Dilynwch GYNGOR TOXBASE** ar gyfer symptomau, arwyddion a rheoli achosion aciwt a chronig o wenwyno gan CO. Gwefan: www.toxbase.org
2. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Gwybodaeth am Wenwynau ar **0344 892 0111** am ragor o wybodaeth ar reoli achosion.
3. **PEIDIWCH** â gadael i'ch claf fynd adref nes i ffynhonnell debygol CO gael ei rheoli. Pan gaiff y claf ei ryddhau o'r ysbyty, dylech argymhell ei fod yn prynu ac yn defnyddio larwm CO clywadwy/gweledol cymeradwy (sy'n cydymffurfio ag EN50291).
4. Mae triniaeth glinigol ddilynol yn hanfodol – efallai y bydd canlyniadau pellach amlygiad cronig i CO yn ymddangos yn ddiweddarach neu efallai y bydd symptomau ysgafn yn parhau, yn lluosogi neu'n dwysáu.

Yn awgrymu bod gwenwyno gan CO yn llai tebygol

Yn glinigol amheus o hyd?

Gall gwenwyno gan garbon monocsid ddyngwared cyflyrau megis y fflw, meigrin, gwenwyn bwyd, symptomau beichiogrwydd, pen tost a achosir gan densiwn ac iselder. Pen tost yw'r symptom mwyaf cyffredin. Wrth frysbenno claf:

YSTYRIWCH CO!

Ffynonellau carbon monocsid

Gall CO fod yn y cartref, yn y car, yn y gweithle neu mewn pebyll neu garafannau. Dyfeisiau gwresogi a choginio sy'n llosgi nwy, olew, glo, golosg a choed nad ydynt yn gweithio'n iawn yw'r ffynonellau mwyaf cyffredin yn y cartref.

Gall gwenwyno ddigwydd ym mhob grŵp incwm a phob math o dŷ. Gall CO ollwng i mewn i dai o eiddo cyfagos. Menywod beichiog, plant bach, yr henoed ac unigolion sy'n methu â gadael y tŷ sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Profi ar gyfer amlygiad

Gall profion anadl a samplau gwaed roi canlyniadau amhendiant oriau ar ôl i'r amlygiad ddod i ben: mae lefelau CO yn y gwaed yn gostwng gyda hanner oes o tua 5 awr.

Nid yw crynodiad arferol o garbocsyhemoglobin yn gwrthbrofi gwenwyno gan CO oni fydd y sampl wedi'i chymryd yn ystod yr amlygiad neu'n fuan ar ôl iddo ddod i ben.

I gael dehongliad o ganlyniadau a chynghor manwl ar wenwyno gan CO gweler TOXBASE a ffoniwch yr NPIS.

Os byddwch yn amau'n gryf bod unigolyn wedi'i wenwyno gan CO, peidiwch ag aros am ganlyniadau, cysylltwch Iechyd Cyhoeddus Cymru ar unwaith.

Camau y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu cymryd er mwyn atal amlygiad pellach

- Hysbysu eraill (gan gynnwys y llinell gymorth frys nwy ar **0800 111 999**)
- Ymchwilio ac asesu'r risg o amlygiad i eraill
- Argymhell camau gweithredu er mwyn lleihau'r risg
- Rhoi cynghor ar atal amlygiad

Os byddwch yn amau bod unigolyn wedi'i amlygu i CO, cysylltwch â'r Thîm Amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar **0300 00 30032**

Suspected Carbon Monoxide (CO) exposure: A guide for use in hospital Emergency Departments and Primary Care settings



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Presenting Complaint/Symptoms

- Headache
- Nausea/vomiting
- Drowsiness
- Dizziness
- Shortness of breath
- Chest pain
- Falls
- Neurological symptoms
- 'Tired all the time'
- General 'flu-like' symptoms

Could this be CO poisoning?

Considerations

If you think CO poisoning is possible, ask the patient:

C Cohabitees/companions

Is anyone else in the property affected (including pets)?

O Outdoors

Do symptoms improve when out of the building? ('better outdoors')

M Maintenance

Has it been over a year since heating appliances/boilers serviced?

A Alarm

Has your CO alarm been activated?

Yes to any

No to all

Acute or Chronic Exposure

1. **Follow TOXBASE ADVICE** for symptoms, signs and management of acute and chronic cases of CO poisoning. Website: www.toxbase.org
2. Contact the National Poisons Information Service (NPIS) on **0344 892 0111** for more information on management.
3. **DO NOT** allow your patient to go home until the likely source of CO is managed. When the patient is discharged, recommend the purchase and use of an approved audible/visual CO alarm (EN50291 compliant).
4. Clinical follow-up is essential - further consequences of chronic exposure to CO may be delayed, or mild symptoms may persist, multiply or intensify.

Less suggestive of CO poisoning

Still clinically suspicious?

If you suspect CO exposure, contact the Environmental Public Health Team at Public Health Wales on **0300 00 30032**

Carbon monoxide (CO) poisoning can mimic conditions such as flu, migraine, food poisoning, pregnancy symptoms, tension headaches and depression. Headache is the most common symptom. When triaging a patient:

THINK CO!

Sources of carbon monoxide

CO may be in the home, car, workplace or in tents or caravans. Malfunctioning gas, oil, coal, coke- and wood-fuelled heating and cooking appliances are the most common sources in the home.

Poisoning can occur in all income groups and types of housing. CO can leak into houses from neighbouring properties. Pregnant women, young children, the elderly and housebound are most at risk.

Testing for exposure

Breath tests and blood samples may prove inconclusive hours after exposure has ended: CO levels in the blood decline with a half-life of about 5 hours.

A normal concentration of carboxyhaemoglobin (COHb) does not disprove CO poisoning unless the sample has been taken during or soon after exposure ended.

For interpretation of results and detailed advice on CO poisoning see TOXBASE and call the NPIS.

If you strongly suspect CO poisoning, do not wait for results, contact Public Health Wales immediately

Actions the Environmental Public Health Team will take to prevent further exposure

- Notify others (including the gas emergency helpline on **0800 111 999**)
- Investigate and assess the risk of exposure to others
- Recommend actions to reduce risk
- Provide advice on prevention